

## Cynhadledd y Llefarywyr yn canmol y Cynulliad

Yn dilyn ei hymweliad â'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin 2009, mae Cynhadledd y Llefarywyr ar Gynrychiolaeth Seneddol wedi cyhoeddi ei hadroddiad terfynol yn cydnabod gwaith a staff y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Gofynnwyd i'r Gynhadledd ystyried yr anghysondeb rhwng cynrychiolaeth merched, lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl yn Nhŷ'r Cyffredin a'u cynrychiolaeth ym mhoblogaeth gyffredinol y DU, ac i gyflwyno argymhellion ar gyfer cywiro hynny.

Yn ystod ei hymweliad â'r Cynulliad ym mis Mehefin 2009, gwrandawodd y Gynhadledd ar dystiolaeth gan gynrychiolwyr sefydliadau yn y sector gwirfoddol, Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, Lorraine Barrett AC, Comisiynydd dros y Cynulliad Cynaliadwy ac Aelodau Cynulliad eraill. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar y rhwystrau sy'n wynebu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wrth geisio ymgysylltu â'r broses wleidyddol.

Roedd adroddiad terfynol y Gynhadledd yn gwneud dau argymhelliad, gan ganmol gwaith y Cynulliad Cenedlaethol yn benodol:

**43.** Credwn fod lle i ddatblygu cynllun tebyg i gynllun mentora Camu Ymlaen Cymru ar gyfer y DU gyfan, ond gyda dylanwad cryf San Steffan. Gallai hyn ddod ag aelodau etholedig ar bob lefel o lywodraeth at ei gilydd er mwyn rhoi cyfle i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ddysgu am eu gwaith. Efallai mai'r nod cyntaf fyddai annog pobl i gymryd rhan mewn grwpiau cymunedol, ond dylai hefyd roi anogaeth i'r rheini a allai fod yn dymuno ymgeisio am swyddi etholedig ar lefel leol a chenedlaethol neu gael eu penodi i gorff cyhoeddus.

**62.** Credwn y byddai'r Tŷ a'i Aelodau yn elwa o gael tîm mewnol, bach, ar ffurf Tîm Cydraddoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gyfrifol am fonitro sut mae'r Tŷ yn gweithredu o ran yr holl faterion yn ymwneud â chydraddoldeb a hefyd am gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer Aelodau, staff ac ymwelwyr anabl. Byddai'r tîm yn gyfrifol am waith mewnol ac allanol i hyrwyddo mwy o amrywiaeth a chydraddoldeb.

Mae'r adroddiad terfynol ar gael [yma](#).